Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| **CYFARFOD BLYNYDDOL CYNTAF O GYNGOR SIR YNYS MÔN** | **FIRST ANNUAL MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL** |
| ar | on |
| **DYDD MAWRTH 24 MAI 2022** | **TUESDAY 24 MAY 2022** |
| **am 2.00 o'r gloch** | **at 2.00 pm** |

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2022/23.

**(Cyfeirir yr Aelodau at y ddogfen 'Trefn y Gweithgareddau' ar gyfer ethol Cadeirydd y Cyngor Sir).**

**2. IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2022/23.

**3. CYHOEDDIADAU**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr ac unrhyw sylwadau terfynol am ei gyfnod yn y swydd gan y Cadeirydd y mae ei dymor yn dod i ben.

**4. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**5. CYFLWYNIAD GAN YMGEISYDD I GEFNOGI EI HENWEBIAD I FOD YN ARWEINYDD Y CYNGOR**

Yn unol â Pharagraff 2.7.3.1 y Cyfansoddiad, ar ôl cyflwyno cyflwyniad ysgrifenedig (maniffesto) eisoes i'r Prif Weithredwr cyn 5:00 pm ar 12 Mai 2022 (a gefnogwyd gan ddau Gynghorydd arall trwy ysgrifennu i'r perwyl at y Prif Weithredwr), bydd yr ymgeisydd canlynol yn rhoi cyflwyniad llafar ar ei weledigaeth a'i gwerthoedd: -

Y Cynghorydd: Llinos Medi Huws

**[Nodyn 1: Gofynnir i'r sawl a enwebwyd, i gyflwyno ei chynigion a'i rhaglenni i'r Cyngor, a dylid disgwyl iddi gymryd cwestiynau gan Aelodau].**

**[Nodyn 2: Ni ddylai cyflwyniadau gymryd mwy na 10 munud ac ni chaniateir i unrhyw gwestiynau o'r llawr gymryd mwy na 10 munud; caniateir dim mwy nag 20 munud felly ar gyfer yr ymgeisydd].**

**6. PENODI ARWEINYDD AR GYFER Y CYNGOR SIR**

Ethol Arweinydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn (fel arfer am dymor o 5 mlynedd) yn unol ag Erthygl 7, ac yn benodol y rheolau gweithdrefn dan baragraffau 2.7.3.1 a 2.7.3.2 yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

## 7. DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR

Arweinydd y Cyngor i roi gwybod i'r Cyngor pwy y mae wedi ei dewis / ddewis i fod yn Ddirprwy Arweinydd (bydd raid i'r Dirprwy Arweinydd fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith).

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2022/23

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

## 9. CADARNHAU PWYLLGORAU

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau canlynol fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol: -

- Panel Tâl a Graddfeydd (Is-Bwyllgor o'r Cyngor)
- Panel Penodi i'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
- Is-Bwyllgor Indemniadau

**[Gofynnir yn garedig i Aelodau nodi y cynhelir y cyfarfod a ohiriwyd o'r Cyngor hwn (yn unol â Pharagraff 4.1.1.1.2 o Gyfansoddiad y Cyngor) am 2.00pm ar Dydd Mawrth, 31 Mai, 2022].**

This page is intentionally left blank

12fed o Fai 2022

Annwyl Prif Weithredwr ,

Yn unol a paragraff 2.7.3.2.1 rydym yn enwebu Cynghorydd Llinos Medi, Plaid Cymru fel Arweinydd y Cyngor o Fai 2022 I Mai 2027.

Cynnigydd – Cynghorydd Carwyn Elias Jones

Eilydd – Cynghorydd Robin Williams

Maniffesto'r Grŵp -

Mae Grŵp Plaid Cymru yn ymfalchïo mewn aeddfedrwydd a sefydlogrwydd gwleidyddol ac rydym yn ymrwymo'n llawn i'r egwyddor hyn yn gyfnod y weinyddiaeth hon. Ein nod yw arwain awdurdod sy'n perfformio'n dda i'r cyhoedd, ein partneriaid a'r rheoleiddwyr. Byddwn fel Grŵp yn sicrhau llais cryf i'r Awdurdod ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol ym mhob maes.

**Addysg - Mae sicrhau system Addysg sy'n addas i bwrpas yn flaenoriaeth gennym. Mae Plaid Cymru yn ymrwymo i roi'r cyfleoedd gorau i blant, phobl ifanc a staff dysgu'r ynys drwy -**

- Sicrhau adnoddau digonol i addysgu ein plant a'n pobl ifanc.
- Cydweithio gyda phartneriaid i gynnig cyfleoedd hyfforddi/addysgu ôl 16.
- Sicrhau a hyrwyddo prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi drwy waith.

**Gofal, Iechyd a Lles - Mae Plaid Cymru eisiau sicrhau gwasanaeth gofal sy'n gwasanaethu'r teulu cyfan pan mae angen gofal arnynt. Bydd y Grŵp yn parhau i roi pwysau ar y Llywodraeth i sicrhau cydraddoldeb rhwng staff iechyd a gofal. Mae Plaid Cymru eisiau parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd i gryfhau gwasanaethau lleol. Byddwn yn -**

- Cryfhau darpariaeth gofal dydd er mwyn rhoi ysbaid i ofalwyr di-dâl.
- Datblygu mwy o gynlluniau Gofal Ychwanegol gan gynnwys gwella gofal dementia.
- Parhau i flaenoriaethu gwasanaeth cefnogaeth i deuluoedd trwy 'Teulu Môn' a gweithio efo ein partneriaid i sicrhau bod digon o feddygon teulu ar gael.

**Economi -Mae Plaid Cymru eisiau gweld mwy o gaffael lleol er mwyn cadw'r arian yn yr economi leol. Rydym drwy'r Bwrdd Uchelgais yn sicrhau cyfleoedd ddatblygu economi ar yr ynys. Mae Plaid Cymru eisiau sicrhau cynllun Arfor I'r dyfodol er bydd ein busnesau a'r Gymraeg. Rydym fel Grŵp eisiau -**

- Datblygu unedau busnes er mwyn tyfu busnesau bach a rhoi gofod iddynt ffynnu.
- Cefnogi sector lletygarwch a thwristiaeth wrth ddiogelu ein cymunedau a'n amgylchedd naturiol.
- Sicrhau bod cwmnïau lleol i Fôn a Chymru yn elwa o ddatblygiadau'r Cyngor.

**Tai - Mae Plaid Cymru o'r farn bod gan bawb yr hawl i gael galw rhywle yn gartref. Rydym yn ymrwymo i barhau i gydweithio gyda Llywodraeth er mwyn ymateb i'r her dai lleol drwy ddeddfau cynllunio a threthi. Bydd Plaid Cymru yn -**

- Parhau i ddatblygu Tai Cyngor a sicrhau cyflenwad o dai i ymateb i'r her dai lleol.
- Codi'r dreth premiwm ar ail dai o 35% i 50% y flwyddyn nesaf ac i 75% a 100% y blynyddoedd wedyn.
- Cynllun cefnogaeth ariannol i brynwyr tro cyntaf yr ynys gan ddefnyddio pres o'r premiwm.

**Hinsawdd - Rydym eisiau blaenoriaethu'r gwaith datgarboneiddio ar draws y Cyngor. Bydd hyn yn digwydd drwy fuddsoddiad, cefnogi cynlluniau ynni a chydweithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd Plaid Cymru yn -**

- Buddsoddi mewn cynlluniau lleihau carbon
- Diogelu amgylchedd yr ynys drwy ofalu am ardaloedd gwyllt drwy gynllun bioamrywiaeth.
- Cydweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned i blannu mwy o goed.

Mi fydd Plaid Cymru yn sicrhau dyfodol gwell i'r ynys drwy ymrwymo i wneud gwahaniaeth hir dymor i wasanaethau'r Cyngor. Rydym eisiau rhoi cyfle i bob plentyn a pherson ifanc gyrraedd ei botensial, hyrwyddo annibyniaeth yn ein cymunedau, rhoi cyfle i'r economi ffynnu a sicrhau ynys sy'n ddiogel, iach a chyfeillgar.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Cyfarfod: | Cyngor Sir |
| Dyddiad: | 24 Mai 2022 |
| Teitl yr adroddiad: | Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2022/23 |
| Adroddiad gan: | Dirprwy Brif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro /<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau a Swyddog Adran 151 |
| Pwrpas yr adroddiad: | Derbyn penderfyniadau'r Panel a chadarnhau nifer y taliadau uwch gyflogau o 2022/23 |

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn annibynnol ar lywodraeth ganolog a lleol ac fe'i sefydlwyd yn y lle cyntaf i benderfynu ystod a lefelau lwfansau sy'n daladwy i gynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Panel lunio Adroddiad Blynyddol sy'n nodi'r math a'r lefelau o daliadau y mae awdurdodau'n gallu neu'n gorfod eu gwneud i'w haelodau ac i aelodau cyfetholedig.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol y Panel ar gyfer 2022/23 ar 24 Chwefror 2022 ac fe ddaeth yn weithredol ar 9 Mai 2022, i gydfynd â'r trefniadau dinesig newydd yn dilyn yr Etholiadau lleol.

Fe roddwyd ystyriaeth i'r cynnydd i gyflogau a'r cynnydd yn y nifer o aelodau etholedig wrth baratoi cyllideb 2022/23 ac mae cyllid digonol wedi'i neilltuo er mwyn ariannu'r costau ychwanegol.

Amlinellir y prif newidiadau sy'n bethnasol i'r Cyngor yn yr adroddiad hwn.

## 2.0 Taliadau i aelodau etholedig

### 2.1 Y cyflog sylfaenol

**£16,800** fydd y cyflog sylfaenol yn 2022/23 i aelodau etholedig prif gynghorau.

### 2.2 Y Bandiau Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig

Mae'r uwch gyflogau a chyflogau dinesig ar gyfer 2022/23 wedi'u gosod allan yn y tabl isod ac mae'r cyflogau yma'n cynnwys y cyflog sylfaenol:


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig 2022/23 | | |
|---|---|---|
| **Uwch Gyflogau** | | |
| Band 1 | Arweinydd<br>Dirprwy Arweinydd | £53,550<br>£37,485 |
| Band 2 | Aelodau'r Pwyllgor Gwaith | £32,130 |
| Band 3 | Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir) | £25,593 |
| Band 4 | Arweinydd y grwp wrthbleidiol mwyaf | £25,593 |
| Band 5 | Arweinydd grwpiau gwleidyddol eraill (os y'u telir) | £20,540 |
| **Cyflogau Dinesig** | | |
| Band 3 | Pennaeth Dinesig (os y'u telir) | £25,593 |
| Band 5 | Dirprwy Bennaeth Dinesig (os y'u telir) | £20,540 |

## 2.3 Nifer yr uwch daliadau

Mae angen i'r Cyngor gadarnhau deiliaid pa swyddi fydd â hawl i dderbyn uwch gyflogau o 2022/23.

Yn weithredol o 9 Mai 2022, mae'r uchafswm yn y nifer o uwch gyflogau ar gyfer y Cyngor hwn ("y cap") wedi cynyddu o 16 i 17 i adlewyrchu'r newid i'w aelodaeth.  Mae'r cap newydd yma'n parhau i gynnwys cyflogau dinesig.

Roedd gan ddeiliaid yr 16 swydd isod hawl i dderbyn uwch gyflog yn 2021/22:

Cadeirydd y Cyngor
Is-Gadeirydd y Cyngor
Arweinydd y Cyngor
Dirprwy Arweinydd y Cyngor
Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (7)
Arweinydd Grwp yr Wrthblaid fwyaf
Cadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini (2)
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi cyflwyno newidiadau i aelodaeth Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio, gan gynnwys gofyniad bod rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor fod yn berson lleyg. Felly, bydd y ffioedd perthnasol a bennir gan y Panel ar gyfer aelodau cyfetholedig yn berthnasol i swydd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o 2022/23.

## 3.0 Newidiadau eraill

### 3.1 Cynorthwywyr y Weithrediaeth

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn galluogi prif gynghorau i benodi aelodau etholedig i gynorthwyo'r weithrediaeth i gyflawni ei swyddogaethau. Gwneir penodiadau o'r fath gan Arweinydd y Cyngor. Mae eithriadau i'r penodiadau fel y nodwyd yn y ddeddfwriaeth ac nid yw cynorthwywyr yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith.

Mae'r Panel wedi dod i'r casgliad nad yw'n bosibl penderfynu ar daliadau ychwanegol, os o gwbl, nes y bydd rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â dyletswyddau'r swyddi. Felly, bwriedir ystyried hyn ymhellach pan fydd cyngor yn penderfynu penodi a phan fydd manylion y cyfrifoldebau penodol ar gael. I weithredu hyn heb fod angen adroddiad ffurfiol pellach, bydd y penderfyniad a ganlyn yn berthnasol:

*"Penderfyniad 13: Bydd y Panel yn penderfynu fesul achos ar yr uwch gyflog penodol, os o gwbl, ar gyfer cynorthwywyr y weithrediaeth"*

### 3.2 Cyd-Bwyllgorau Corfforedig

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 yn sefydlu Cyd-Bwyllgorau Corfforedig sy'n cynnwys grwpiau o brif gynghorau. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wedi'i ddiwygio i gynnwys Cyd-Bwyllgorau Corfforedig fel awdurdodau perthnasol ar gyfer swyddogaethau'r Panel. Felly, bydd rhaid i unrhyw daliadau a wneir i aelodau Cyd-Bwyllgorau Corfforedig gael eu penderfynu gan y Panel.

Gan fod Cyd-Bwyllgorau Corfforedig yng nghamau cynnar eu sefydlu, mae hi'n rhy fuan i'r Panel ystyried a ddylid rhoi cydnabyddiaeth ariannol i'r aelodau. Dros amser, bydd cyfrifoldeb y swydd yn cael ei werthuso gan gynnwys unrhyw newidiadau i swyddogaeth a rôl aelodau gweithredol y prif gyngor.

Fodd bynnag, mae'r cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol a theithio a chynhaliaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'i gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Panel ar gyfer 2022/23.

## 4.0 Cydymffurfio â gofynion y Panel

Bydd Rhestr Flynyddol o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau'r Cyngor yn cael ei newid i adlewyrchu penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2022/23. Bydd y Rhestr yn cael ei chyhoeddi a'i hanfon at y Panel cyn gynted ag y bo'n ymarferol a dim hwyrach na 31 Gorffennaf 2022.

## 5.0 Argymhellion

Gofynnir i'r Cyngor:

5.1 dderbyn penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2022/23;

5.2 gadarnhau y bydd deilyddion yr un swyddi â 2021/22 â'r hawl i dderbyn uwch gyflogau o 2022/23, heblaw am swydd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio lle bydd y ffioedd a bennir gan y Panel ar gyfer aelodau cyfetholedig yn berthnasol, hy:

Cadeirydd y Cyngor
Is-Gadeirydd y Cyngor
Arweinydd y Cyngor
Dirprwy Arweinydd y Cyngor
Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (7)
Arweinydd Grwp yr Wrthblaid fwyaf
Cadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini (2)
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion

5.3 awdurdodi swyddogion i newid Rhan 6 o Gyfansoddiad y Cyngor (Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau) i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23.

**Rhys Howard Hughes**
**Dirprwy Brif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro**

**Marc Jones**
**Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau a Swyddog Adran 151**

**17 Mai 2022**

Papur cefndir:- Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Chwefror 2022) – https://llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-2022-i-2023